**Theatr Clwyd**
**TECHNEGYDD LLEOLIAD**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Profiad
Yn gyfrifol am: Amherthnasol
Yn adrodd i:
Graddfa: OP3

## Pwrpas y Swydd

Gweithio fel rhan o’r tîm technegol ac, o dan oruchwyliaeth Rheolwr Technegol y Lleoliad, darparu gwasanaeth i holl gynyrchiadau Theatr Clwyd a chynyrchiadau sy’n ymweld sydd o’r safon uchaf bosibl.

## Cyfrifoldebau allweddol

### Cyffredinol

- Darparu cefnogaeth dechnegol i holl ddefnyddwyr y lleoliad.
- Darparu gwasanaeth technegol yn ystod perfformiadau yn ôl yr angen.
- Ymgymryd â gwaith ymarferol mewn perthynas â dod i mewn, ffitiadau, tynnu i lawr a mynd allan gan gynnwys gosod, rigio, addasu a defnyddio golygfeydd, props, offer rigio a chodi, offer goleuo, effeithiau arbennig ac offer sain.
- Cadw at gynlluniau ac amserlenni, yn unol â chyfarwyddyd Rheolwr Technegol y Lleoliad mewn perthynas â ffitio a rigio offer technegol.
- Gosod unrhyw offer technegol sydd ei angen ar gyfer gofod perfformio neu ddigwyddiadau.
- Pan fo angen, darparu cymorth technegol i ddefnyddwyr allanol.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r safle o ddydd i ddydd.
- Bod yn gyfrifol am agor a chau ardaloedd cefn llwyfan pan fo angen.

### Iechyd a Diogelwch

- Sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni bob amser wrth weithio.
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i'r mannau a'r offer a ddefnyddir.
- Gyda Rheolwr Technegol y Lleoliad, cydlynu archwiliadau diogelwch rheolaidd o'r holl offer technegol, peiriannau, gosodiadau a ffitiadau.
- Sicrhau bod yr holl offer arbenigol yn cael eu cau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Sicrhau bod pob perygl posibl yn cael ei wneud yn ddiogel cyn gynted â sy'n ymarferol bosibl.
- Cynorthwyo’r staff ac aelodau'r gynulleidfa i adael yr adeilad yn ddiogel os bydd tân neu argyfwng.
- Ar y cyd â Rheolwr Technegol y Lleoliad, sicrhau bod llogwyr allanol yn cael eu briffio'n llawn ar ddefnydd diogel o ofod y theatr.
- Adolygu asesiadau risg a datganiadau dull, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau neu bryderon yn cael eu hadrodd i Reolwr Technegol y Lleoliad.

### Arall

- Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n ddiogel a'i fod yn hygyrch i ddefnyddwyr awdurdodedig.
- Cadw rhestr o'r holl offer a’r deunyddiau sy’n cael eu cadw a’u defnyddio.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais rhesymol Rheolwr Technegol y Lleoliad.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad ymarferol perthnasol o weithio mewn lleoliad neu adran dechnegol theatr, neu gwmni teithiol neu debyg, neu gymhwyster cydnabyddedig priodol arall.
- Profiad o rigio, addasu, rhaglennu a gweithredu offer goleuo, sain a chlyw-weledol theatrig, a systemau dosbarthu pŵer, cyfathrebu a rheoli.
- Gwybodaeth am theori ac ymarfer trydanol sy'n ymwneud â systemau goleuo, sain a chyfathrebu theatr.
- Gwybodaeth gyfredol am systemau goleuo a sain, cyfarpar rheoli, offer a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw.
- Profiad o rigio, addasu a gweithredu systemau rigio a hedfan theatrig.
- Profiad o osod a rigio systemau decin llwyfannau a golygfeydd.
- Gwybodaeth ymarferol am ddulliau rigio a defnydd diogel o offer codi.
- Gallu clir i ddarllen a deall cynlluniau technegol, gyda gwybodaeth am CAD a rhaglenni eraill.
- Sgiliau rhyngbersonol ardderchog, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â holl ddefnyddwyr y theatr a'r gofod digwyddiadau, yn enwedig defnyddwyr nad ydynt yn dechnegol.
- Y gallu i ddefnyddio ystod eang o gelfi pŵer cludadwy a chelfi llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Dull trefnus o weithredu, gydag enw da am gwrdd â therfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.
- Profiad o weithredu gofynion Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.
- Hyfforddiant mewn codi a chario, MEWP, defnyddio ystolion a thalesgop.
- Profiad codi a chario diogel, ac yn fodlon gweithio ar uchder
- Hyder i weithio'n annibynnol ond hefyd parodrwydd i gydweithio ar draws nifer o adrannau.
- Y gallu i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau banc.

**Dymunol**

- Profiad cadarn, wedi'i brofi mewn cynllunio goleuo.
- Profiad cadarn, wedi'i brofi mewn cynllunio sain.
- Gwybodaeth gyfredol am beirianneg llwyfannau a systemau awtomeiddio, rhaglennu a gweithredu.
- Profiad o rigio, addasu a gweithredu effeithiau arbennig ac offer fideo.
- Gwybodaeth gyfredol am offer sain a chlyw-weledol digidol a sut mae'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â thechnegau byw, wedi'u recordio a chwarae'n ôl.
- Hyfforddiant gweithio ar uchder.
- Profiad o reoli digwyddiadau.
- Gwybodaeth am y theatr, dawns a ffurfiau celfyddydol eraill yn y DU yn gyffredinol a Chymru yn benodol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Trwydded yrru lawn